Cofnodion cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** a gynhaliwyd yn **Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, nos Lun, 11 Chwefror 2019** am **6:45p.m.**

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Gavin Harris, John Wynne Hughes, Ian Lewney, Jabez Oakes, Robert Owen-Ellis a Heather Williams.

59. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Stephen Beach, Ken Hawkins ac Ifan Wyn.

60. DATGAN BUDDIANNAU

Gwnaeth y Cynghorydd Gavin Harris ddatgan budd yng nghais 02/2019/0001 a 02/2019/0002 cais Adeilad Rhestredig ar gyfer yr Hen Lys, gan ei fod wedi cyflwyno'r cais. Datganodd y Cynghorydd Ian Lewney fudd yng nghais 02/2019/0084 – 66 Borthyn, Rhuthun oherwydd budd yn yr eiddo drws nesaf a datganodd y Cynghorydd Heather Williams fudd yn yr un cais gan ei bod yn perthyn i'r ymgeisydd a'r asiant cynllunio.

61. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 7 Ionawr 2019 yn gywir.

62. MATERION YN CODI

Cadarnhaodd y Cynghorydd Jabez Oakes ei fod ar gael i fynd i'r hyfforddiant gorfodaeth cynllunio yn Llangollen ar 13 Mawrth 2019.

63. PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO

Adroddodd y Clerc y derbyniwyd y penderfyniad cynllunio a ganlyn gan Gyngor Sir Ddinbych:
02/2018/1165 – Fron Haul, Llanfwrog, Rhuthun – Manylion strategaeth lliniaru'r effaith ar ystlymodd a gyflwynwyd yn unol ag amod 5 caniatâd cynllunio 02/2018/0942 – Cymeradwywyd
02/2018/0889 – Tir yng Nglasdir, Rhuthun – Amnewid mathau o dai ar 42 plot a ganiatawyd yn flaenorol gan faterion a neilltuwyd 02/2006/0900/PR – Caniatawyd
02/2019/0008 – Fferm y Castell, Ffordd Llanfair, Rhuthun – Manylion y mecanwaith ar gyfer darpariaeth gwagle agored trwy swm cymudol a gyflwynwyd yn unol ag amod 3 caniatâd cynllunio 02/2018/0075 – Cymeradwywyd
02/2018/1206 – 9 Cae Castan, Ruthin – Adeiladu estyniad ac addasiadau i'r annedd (cais wedi'i ailgyflwyno) – Caniatawyd
02/2018/1064 – Llys Gwyn, Bryn Goodman, Rhuthun – Dymchwel y garej presennol, adeiladu estyniadau ac addasiadau i'r annedd a llunio mynedfa newydd i gerbydau – Caniatawyd
02/2018/0445 – Tir y tu cefn i Tŷ Cefn, Llanfwrog, Rhuthun – Datblygu 0.09 hectar o dir trwy adeiladu dau annedd sengl, gosod tanc septig newydd a gwaith cysylltiedig (cais amlinellol) – Caniatawyd
02/2018/1175 – Llawr cyntaf ac ail lawr uwchben Cavendish Ikin a Mococco, Sgwâr Sant Pedr, Rhuthun – Manylion y datganiad dull, manylion drysau mewnol, datganiad sŵn ac arolwg ffotgraffi a gyflwynwyd yn unol ag amodau rhif 2, 3, 4 a 5 caniatád cynllunio 02/2013/0781/LB - Cymeradwywyd

64. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ystyriodd y Pwyllgor y ceisiadau a ganlyn a gyflwynwyd am sylwadau gan Gyngor Sir Ddinbych.
PENDERFYNWYD: *nad oedd unrhyw wrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio a ganlyn, yn ddarostyngedig i'r sylwadau isod.*

02/2019/0001 a 02/2019/0002 (Cais Adeilad Rhestredig) – Banc Natwest, Sgwâr Sant Pedr, Rhuthun
Newid defnydd o fanc i ganolfan ddinesig, gymunedol ac ymwelwyr amlbwrpas a gwaith cysylltiedig
02/2019/0019 – Sgwâr Sant Pedr, Rhuthun
Gwaith ar goed mewn Ardal Gadwraeth – lleihau coron dwy goeden

02/2019/0028 – 33 Llwyn Menlli, Rhuthun
Adeiladu estyniadau unllawr ar ochr a thu ôl yr annedd sy'n bodoli eisoes
02/2019/0057 – Cil y Coed, 8 Glasfryn, Rhuthun
Gwaith ar goed sy'n ddarostyngedig i Orchymyn Cadw Coed *yn amodol bod y gwaith yn cael ei gyflawni yn unol ag argymhellion y Swyddog Coed.*
02/2019/0084 – 66 Borthyn, Rhuthun
Adeiladu estyniad i du cefn yr annedd

65. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Trafodwyd amseriad y cyfarfodydd Pwyllgor. Gan fod angen cael cyfarfodydd Gweithgor yr Hen Lys yn rheolaidd, awgrymwyd bod y gweithgor yn cyfarfod am 6pm, yna'r Pwyllgor Amwynderau am 7pm a'r Pwyllgor Cynllunio am 8pm.
PENDERFYNWYD*: mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd nos Lun, 11 Mawrth 2019 am 8:00pm, yn ddarostyngedig bod hyn yn dderbyniol i aelodau'r Pwyllgor Amwynderau.*